

Amcanion Cydraddoldeb Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cynllun Strategol Cydraddoldeb : Ebrill 2014 - Mawrth 2018

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymrwymo i gynnal ei record da o sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i bawb, a hynny wedi'i feithrin mewn amgylchedd o barch ac urddas ac yn parhau yn yr ymgais o sicrhau bod ei staff a'i defnyddwyr yn cofleidio amrywedd a chydaddoldeb.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd ble mae pawb yn gallu cymryd rhan i'r un graddau yn ein holl weithgareddau a chydabod gwahaniaethau rhwng unigolion, gan barchu hynny, a'i glodfori.

Mae amcanion cydraddoldeb y Llyfrgell yn dangos sut y byddwn yn cynnal y gwerthoedd hyn a'r un pryd yn hyrwyddo amrywedd a chydaddoldeb

Amcan 1	I BRIF-FFRYDIO AMRYWEDD A CHYDRADDOLDEB: drwy hyfforddiant, arweiniad a chyfathrebu	Er mwyn meithrin diwylliant wedi'i sylfaenu ar urddas, moesgarwch a pharch byddwn yn hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol cydraddoldeb ac annog ymddygiad positif a rhoi cyfle i'r cyhoedd fynegi barn.
Amcan 2	YMGYNGHORI, CYFRANOGIAD, HYFFORDDIANT PARHAUS: er mwyn deall anghenion defnyddwyr yn well, a darparu gwasanaethau priodol ar eu cyfer	Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'n briodol ar gyfer ein holl defnyddwyr, byddwn yn ymgynghori ac annog cyfranogiad, er mwyn deall anghenion unigolion yn well.
Amcan 3	STRATEGAETH Y LLYFRGELL A DATBLYGIAD POLISI: er mwyn sicrhau cynhwysiad a tryloywder	Drwy hyrwyddo a dathlu ein hamgylchedd cynhwysol byddwn yn gofalu am les ein staff a'n defnyddwyr a'u galluogi i gyrraedd eu potensial llawn. Byddwn yn adolygu polisiau a gweithdrefnau'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl y gofyn.
Amcan 4	AMGYLCHEDD: parhau i wella a datblygu mynediad at amgylcheddau corfforol a rhithiol y Llyfrgell	Byddwn yn cynnal amgylchedd cynhwysol ac yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau mynediad i bawb.
Amcan 5	ALLANOL: cynyddu ymwybyddiaeth o ymrwymiad y Llyfrgell i amrywedd a chydaddoldeb	Byddwn yn gweithio gydag ymwelwyr, partneriaid, cyflenwyr a chyda'r gymuned leol ac ehangach er mwyn hyrwyddo a lledaenu amrywedd.